

# Cynorthwyo Cymru i fodloni'r targedau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon o 80% erbyn 2050

Mae Prifysgol Bangor yn elwa ar raglen Re:fit Cymru Llywodraeth Cymru, sydd wedi ei chynllunio i wneud cyrff cyhoeddus Cymru'n fwy effeithlon o ran ynni. Sefydlwyd y rhaglen yn 2016 ac mae'n cefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, sy'n arwain at arbed arian yn sgil defnyddio llai o ynni a lleihau allyriadau carbon.

Cyd-gyllidir y gwasanaeth Re:fit Cymru gan "Intelligent Energy Europe Programme" yr Undeb Ewropeaidd, ac fe'i cynigir i sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru am gyfraniad bychan.

## Sut mae'n gweithio?

- 'Mae Re:fit Cymru yn defnyddio fframwaith o 16 o ddarparwyr gwasanaeth cymeradwy (sy'n cydymffurfio â'r OJEU) i asesu defnydd o ynni ar draws y campws, a nodi cyfleoedd i ôl-osod mesurau arbed ynni (ECM). Mae defnyddio fframwaith sefydledig yn arbed amser ac adnoddau i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n ceisio caffael gweithiau ôl-osod a sicrhau arbedion ynni.
- Gall project Re:fit Cymru greu manteision ariannol trwy leihau defnydd o ynni a thrwy hynny lleihau biliau ynni; lleihau effaith codiadau mewn prisiau ynni yn y dyfodol trwy leihau'r ynni a ddefnyddir a chynyddu'r potensial i gynhyrchu ynni; lleihau'r gwaith cynnal a chadw sy'n hir-hel a lleihau costau cylch bywyd trwy uwchraddio cyfarpar a pheiriannau fel rhan o'r project ôl-osod.
- Mae tîm Re:fit Cymru ar gael i ddarparu cymorth o'r dechrau i'r diwedd er mwyn sicrhau bod projectau ar waith ac yn gweithredu'n llwyddiannus.
- Cynhelir cystadleuaeth fach i benderfynu ar y darparwr gwasanaeth mwyaf priodol.
- Nid oes cyfyngiad ar nifer yr adeiladau/safleoedd y gellir eu hasesu (o fewn rheswm!)
- Mae'r gefnogaeth Re:fit sydd ar gael wedi ei gapio ar uchafswm o £20,000, er bod y gost wirioneddol yn gostwng i £10,000 os yw'r mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gosod. Gellir cyfalafu'r £10,000 fel rhan o gostau'r project.
- Bydd y cyflenwr yn gwarantu lefel yr arbedion sy'n gysylltiedig â phob cynllun - os na chyflawnir yr arbedion, mae'r cyflenwr yn rhwymedig dan gontract i dalu'r arbedion a nodwyd.
- Ni chaiff yr arbedion eu rhannu - gellir eu defnyddio yn eu cyfanrwydd i dalu tuag at y cynllun.
- Mae gwerth cynlluniau nodweddiadol rhwng £0.75m a £15m.
- Ar ôl ad-dalu, bydd yr holl arbedion ynni'n perthyn i'r brifysgol.

## Ein cynlluniau

Mae cyllid cychwynnol ar gyfer Cam 1 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a defnyddir yr arbedion blynyddol mewn costau ynni/treth garbon i ad-dalu'r arian a fenthycwyd dros naw mlynedd i gyflawni y mesurau a nodir yn "[Ein targedau i leihau carbon, costau ac arbedion](#)".